


Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol 2009-2010



Chwefror 2011

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn oddi wrth:

TAAAC

Uned 32

Parc Menter Dole Road

Llandrindod

Powys LD1 6DF

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

E-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk



ISBN 978 0 7504 6025 5

© Hawlfraint y Goron 2011

WAG11-11367


F7061011

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2009 - 2010

At: Leighton Andrews AC
Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ionawr 2011

Rwy'n falch o gyflwyno fy seithfed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am weithgareddau'r Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2009 i 31 Awst 2010.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'R. Walker', with a long horizontal line extending to the right below the signature.

Rhiannon Ellis Walker OBE
Llywydd, TAAAC

Cynnwys

1.	Adolygiad o'r flwyddyn	3
2.	Golwg gyffredinol ar y Tribiwnlys	6
3.	Niferoedd ac ystadegau	
	Tabl 3.1 niferoedd ac ystadegau	8
	Tabl 3.2 apeliadau a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd yn ôl blwyddyn	9
	Tabl 3.3 apeliadau a dderbyniwyd yn ôl chwarter	9
	Tabl 3.4 apeliadau yn ôl awdurdod lleol	10
	Tabl 3.5 apeliadau yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol	11
	Tabl 3.6 apeliadau yn ôl math o apêl	12
	Tabl 3.7 apeliadau yn ôl oed ysgol a math o apêl	12
	Tabl 3.8 apeliadau yn ôl oed ysgol ac awdurdod lleol	13
	Tabl 3.9 apeliadau yn ôl canlyniad	14
	Tabl 3.10 apeliadau yn ôl canlyniad a math	14
	Tabl 3.11 apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol	15
	Tabl 3.12 apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig	16
	Tabl 3.13 apeliadau yn ôl rhyw	17
	Tabl 3.14 apeliadau yn ôl cenedligrwydd	17
	Tabl 3.15 hawliau a gofrestrwyd ac a gyflawnwyd yn ôl blwyddyn	18
	Tabl 3.16 hawliau yn ôl canlyniad	18
	Tabl 3.17 ceisiadau llywyddol	19
4.	Adolygiadau ac apeliadau sy'n mynd ymlaen	20
5.	Ein perfformiad	20
6.	Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid a defnyddwyr	21
7.	Yr Iaith Gymraeg	21
8.	Gwariant	22
9.	Cysylltu â'r Tribiwnlys	22
Atodiad A:	Copi o lythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Blant at Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol	23

Mae fersiwn electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Tribiwnlys
www.taaac.gov.uk

1. Adolygiad o'r Flwyddyn

Dyma fy seithfed adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys AAA Cymru (TAAAC). Eleni rydym wedi newid fformat a chynnwys yr adroddiad ac fe welwch ei fod yn edrych yn wahanol. Gobeithiaf y byddwch yn ystyried ei fod yn hawdd ei ddarllen. Rydym yn croesawu cwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad a gellir eu cyflwyno drwy gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys.

Apeliadau AAA

Mae apeliadau AAA yn parhau i ffurfio'r rhan fwyaf o lwyth gwaith y Tribiwnlys. Cyfanswm nifer yr apeliadau a gofrestrwyd dros y cyfnod hwn oedd 106, cynnydd ar y blynyddoedd blaenorol lle cofrestrwyd 92 yn 2008/09 a 94 yn 2007/08. Derbyniwyd 10 apêl arall hefyd na ellid eu cofrestru, ac ymdriniwyd â 25 o apeliadau a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r cynnydd yr adroddwyd amdano'r llynedd yn nifer yr apeliadau sydd am benderfyniadau cyn-datganiad (gwrthod asesu a gwrthod rhoi datganiad) wedi parhau. Roedd y mathau hyn o apeliadau yn cyfrif am 57% o'r holl apeliadau a gofrestrwyd. Roedd yn 47% yn 2008/09 ac yn 30% yn 2007/08. Mae'n bosibl iawn fod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws Cymru oherwydd bod ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)¹ yn dangos gostyngiad cenedlaethol yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd ac yn nifer y disgyblion gyda datganiadau.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at y ffaith mai dim ond 33% o apeliadau a aeth ymlaen i wrandawriad oedd am benderfyniadau cyn-datganiad. Felly tra bo'r mathau hyn o apeliadau yn cyfrif am dros hanner yr holl apeliadau a gofrestrwyd, y maent mewn gwirionedd yn llawer mwy tebygol naill ai o gael eu tynnu'n ôl neu eu cydsynio cyn y gwrandawriad. Yn wir rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr apeliadau a gafodd eu cydsynio gan Awdurdodau Lleol, o 16% o'r holl apeliadau a gofrestrwyd y llynedd, i 27% eleni. Teimlaf y gall defnydd proactif a chynnwys o wasanaethau datrys anghydfod fod o fudd i bob parti, yn arbennig felly lle mae penderfyniad yr Awdurdod Lleol yn ymwneud â gwrthod asesu neu roi datganiad.

Mae apeliadau wedi eu dosbarthu yn fwy eang ar draws Cymru gydag ychydig dros hanner yr holl Awdurdodau Lleol yn gweld cynnydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r niferoedd a gofrestrwyd yn erbyn unrhyw Awdurdod unigol yn parhau i fod yn isel. Mae unrhyw gynnydd er hynny yn fwy amlwg lle mae'n ymwneud ag Awdurdodau a oedd yn hanesyddol ag ychydig iawn neu ddim apeliadau. Rwy'n falch o nodi er hynny bod Awdurdodau Lleol Caerdydd a Sir Gaerfyrddin yn mynd yn groes i'r duedd hon gyda gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr apeliadau.

Yn nhermau canlyniadau, cyflawnwyd cyfanswm o 93 o apeliadau. O blith y rhain penderfynwyd ar 26 o apeliadau (cafodd 19 eu cefnogi a 6 eu gwrthod a chafodd 1 ei dileu), ni wrthwynebwyd 36 ohonynt a chafodd 36 eu tynnu'n ôl. Yn gyffredinol aeth 20% o'r apeliadau a gofrestrwyd ymlaen i wrandawriad.

¹ Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru SDR 91/2010 16 Mehefin 2010

Rydym bob amser yn anelu at gyhoeddi ein penderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad. Ym mhob achos mae'n bwysig iawn i'r Tribiwnlys y gwneir y penderfyniad iawn. Mae hyn yn golygu mewn rhai o'r achosion mwy cymhleth y gall gymryd mwy o amser i ddod i benderfyniad. Eleni rydym wedi gweld cynnydd yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i roi penderfyniad o 8 i 11 diwrnod. Rwy'n adolygu pob achos lle nad ydym yn cyrraedd y targed a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn agos.

Ar ddiwedd y flwyddyn yr ydym, gyda 33 o apeliadau, wedi dwyn ymlaen 8 o achosion yn fwy o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer uwch o apeliadau a dderbyniwyd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

Mesur Addysg (Cymru) 2009

Yn fy adroddiad diwethaf crybwyllais fy mod yn croesawu'r Mesur uchod gan y Cynulliad. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth i blant eu hunain allu gwneud eu hapêl AAA a'u hawl eu hunain ar wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'n gam pwysig tuag at gynyddu cyfranogiad plant mewn prosesau a materion sy'n effeithio arnynt. Ar hyn o bryd dim ond rhieni sydd â'r hawl i wneud apêl a hawl.

Mae angen gwaith pellach i roi ystyriaeth i'r rhesymau ehangach dros wneud hawl am wahaniaethu ar sail anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sydd newydd ddod i rym. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda LICC i fynd â hyn yn ei flaen. Gobeithiwn fod â chynrychiolydd o LICC i roi diweddariad ynglŷn â chynnydd yng nghylch nesaf cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr y Tribiwnlys.

Yn y cyfamser, mae'r Tribiwnlys wedi dechrau paratoi ar gyfer y newid drwy adolygu ei brosesau, cyhoeddiadau a chynnwys y wefan. Rydym wedi ymgynghori gyda phlant a'u teuluoedd am sut i wneud ein gwybodaeth yn hygyrch. Rydym hefyd wedi cyflenwi hyfforddiant ychwanegol i'r aelodau a'r ysgrifenyddiaeth. Byddwn yn parhau i gynnwys defnyddwyr y tribiwnlys a rhan-ddeiliaid wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Rheoliadau Gweithdrefnol

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion LICC i ddiweddarau a diwygio rheoliadau gweithdrefnol y Tribiwnlys. Rhaid cydnabod bod y gwaith hwn wedi bod yn weddol gymhleth ac wedi cymryd hwy na'r disgwyl i'w wneud. Ond rwy'n hyderus y bydd y canlyniad yn y pen draw yn fframwaith deddfwriaethol cliriach a mwy hyblyg y bydd y Tribiwnlys yn gweithredu o'i fewn.

Cyfarfod gyda Huw Lewis, Dirprwy Weinidog dros Blant Cymru

Yn gynharach yn y flwyddyn cyfarfûm â Huw Lewis, Dirprwy Weinidog dros Addysg Cymru. Roedd y cyfarfod yn gyfle defnyddiol i drafod gwaith y Tribiwnlys.

Roeddwn yn falch o adrodd fod nifer yr apeliadau wedi parhau yn gymharol isel dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ond roedd y Gweinidog yn bryderus o glywed am y nifer fach o achosion lle daeth i'n sylw nad oedd rhieni wedi eu hysbysu am eu hawliau i apelio. Mae llythyr wedi ei anfon ers hynny oddi wrth y Gweinidog at yr holl Gyfarwyddwyr Addysg yn eu hatgoffa am y ddyletswydd statudol i wneud hynny, a gwelir copi yn Atodiad A.

Siaradwyd hefyd am y darlun mwy cyffredinol o fodloni anghenion addysgol arbennig o fewn yr anawsterau economaidd cyfredol a'r pryderon yr oedd rhieni wedi eu lleisio mewn cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr am gynnal y cyllid ar gyfer ysgolion arbennig.

Lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau

Mae mwy o gyfyngiadau ar y gyllideb wedi'n harwain ni i edrych yn ofalus iawn ar ffyrdd o wneud cynilion heb gwtogi ar ansawdd ein gwasanaeth craidd. Mae gwrandawiadau yn tueddu i gyfrif am gyfran helaeth o gyllideb y Tribiwnlys ac rydym wedi cymryd camau i gwtogi ar gostau. Er nad ydym bellach yn gallu darparu ystafelloedd aros a chinio i grwpiau, rydym yn sicrhau bod gan y lleoliadau i gyd ardaloedd aros cysurus a bod bwyd ar gael i'w brynu.

Ysgrifennwyd at ddefnyddwyr y Tribiwnlys yn gynharach yn y flwyddyn am y trefniadau newydd. Rwy'n falch o ddweud bod y trosglwyddo wedi bod yn llyfn a hoffem ddiolch i'n holl ddefnyddwyr a'n haelodau am eu cymorth parhaus yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd – Pwyllgor Cymru

Rwyf wedi bod yn dilyn y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Cymru AJTC yn ei 'Adolygiad o Dribiwnlysoedd yn Gweithredu yng Nghymru' a gyhoeddwyd yn Ionawr 2010 gyda diddordeb. Rwy'n croesawu'r argymhellion yn adroddiad yr adolygiad ar gyfer moderneiddio a datblygu cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru ac edrychaf ymlaen at weld ymateb Llywodraeth y Cynulliad maes o law.

Yr Aelodau a'r Ysgrifenyddiaeth

Yn dilyn proses lwyddiannus o benodiadau cyhoeddus roeddwn yn falch iawn o groesawu tri aelod llewyg i'r Tribiwnlys. Fe'u penodwyd gan Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg dros Gymru. Yr aelodau newydd yw Mr Richard Ellis Owen, Ms Catrin Mair Lewis a Dr Hilary Hayward. Mae gan bob aelod lefel uchel iawn o wybodaeth ac arbenigedd ym maes addysg ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn at weithio gyda nhw yn eu rôl newydd.

Yn olaf

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un eithriadol o brysur i aelodau'r Tribiwnlys a'i ysgrifenyddiaeth. Rydym wedi gweld cynnydd mewn apeliadau ac rydym wedi gweithio ar floc sylweddol o waith i baratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol pwysig a amlinellwyd uchod. Nid yw'r Tribiwnlys wedi cael unrhyw adnodd ychwanegol i gwblhau'r gwaith ychwanegol hwn, a brwdfrydedd ac ymrwymiad a gwaith caled yr ysgrifenyddiaeth a'r aelodau sydd wedi sicrhau bod cynnydd wedi ei wneud a bod ansawdd ein gwasanaeth craidd wedi ei gynnal. Rwy'n hynod o ffodus o fod ag ysgrifenyddiaeth ac aelodau mor ymroddgar ac rwy'n gwybod gyda'u cefnogaeth barhaus y bydd yr heriau sy'n sicr o'n hwynebu yn cael eu cyflawni gan y Tribiwnlys.

2. Golwg Gyffredinol ar y Tribiwnlys

Rôl ac awdurdodaeth

Rôl y Tribiwnlys yw darparu proses annibynnol i glywed a phenderfynu ar apeliadau anghenion addysgol arbennig a hawliau yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd.

Cafodd cyfrifoldeb gweithredol am y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ei ddatganoli i Gymru adeg Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae hyn yn golygu bod grym i wneud rheoliadau gweithdrefnol sy'n llywio'r Tribiwnlys yn nwylo Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Sefydlwyd TAAAC gan Ddeddf Addysg 2002 a dechreuodd weithredu o 1 Medi 2003.

Darperir ar gyfer yr hawl statudol i wneud apêl anghenion addysgol arbennig yn erbyn penderfyniadau arbennig a wnaed gan Awdurdodau Lleol yn Neddf Addysg 1996 Pennod 56, Adrannau 323-336. Ar hyn o bryd dim ond rhiant sy'n gallu gwneud apêl.

Gellir gwneud apeliadau am y penderfyniadau canlynol gan Awdurdodau Lleol:

- **Gwrthod gwneud Aseiad Statudol** ond dim ond os nad oes un wedi ei gwblhau yn y 6 mis blaenorol. Gallai'r ysgol neu riant ofyn am wneud aseiad;
- **Gwrthod gwneud Datganiad anghenion addysgol arbennig;**
- **Cynnwys y Datganiad**, y cyfan neu rhai o rannau 2,3 a 4, ond dim ond os yw'r ALI wedi gwneud neu ddiwygio datganiad;
- **Gwrthod newid yr ysgol a enwid yn Rhan 4 y Datganiad**, ond dim ond os yw datganiad o leiaf yn flwydd oed a dim ond yn achos ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol;
- **Gwrthod gwneud Ail-asesiad Statudol**, ond dim ond lle na chafodd un ei gwblhau yn y 6 mis blaenorol;
- **Gwrthod diwygio'r datganiad yn dilyn Ailasesiad Statudol;**
- **Peidio â chynnal y Datganiad.**

Ein Pobl

Mae gan y Tribiwnlys lywydd ac 14 o aelodau. Mae'r aelodau i gyd wedi eistedd ar wrandawiadau tribiwnlysoedd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Yr eithriad i hyn yw aelodau a benodwyd o'r newydd sy'n dilyn hyfforddiant cynefino.

<p>Aelodau'r Tribiwnlys</p> <p>Rôl yr aelodau yw gwranddo a phenderfynu ar apeliadau a hawliau.</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys</p> <p>Rôl yr ysgrifenyddiaeth yw gweinyddu apeliadau a hawliau, darparu gwasanaeth llinell gymorth dros y ffôn i ddefnyddwyr y Tribiwnlys a gwasanaethau cymorth ar gyfer aelodau'r Tribiwnlys.</p>
<p>Rhiannon Walker, Llywydd</p>	<p>Sian Mills, Ysgrifennydd</p>
<p>Aelodau Cyfreithiol Meleri Tudur Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies</p> <p>Aelodau Lleyg Sandy Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Gareth Roberts Sian Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson Richard Ellis Owen Hilary Hayward Catrin Lewis</p>	<p>Ysgrifenyddiaeth Pam Hawkes Leon Mills Sarah Smith Tania Ryland</p>

3. Niferoedd ac y Ystadegau


Tabl 3.1 Niferoedd ac ystadegau

Derbyniwyd cyfanswm o 116 o apeliadau yn ystod 2009-10. O blith y rhai hynny, roedd 106 wedi eu cofrestru. Ymdriniwyd hefyd â 25 apêl arall a ddygwyd ymlaen o 2008-09.


2009-2010	Gwirioneddol	Canran	2008-2009	Gwirioneddol	Canran
Penderfynwyd	25	20%	Penderfynwyd	28	24%
Tynnwyd yn ôl	36	27%	Tynnwyd yn ôl	45	39%
Cydsyniwyd	36	27%	Cydsyniwyd	19	16%
Dilëwyd	1	1%	Dilëwyd	0	0%
Dan ystyriaeth	33	25%	Dan ystyriaeth	25	21%
Cyfanswm	131	100%	Cyfanswm	117	100%

Math o apêl	Apeliadau 2009-2010		Apeliadau 2008-09	
	Cyfanswm yr Apeliadau 106	Canran	Cyfanswm yr Apeliadau 92	Canran
Gwrthodiad I Asesu	37	34%	26	28%
Gwrthodiad I Gweud Datganiad	23	22%	17	19%
Gwrthodiad I Ail-Asesu	0	0%	2	2%
Dirwyn datganiad I ben	1	1%	1	1%
Cynnwys Rhannau 2 a 3	15	14%	10	11%
Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	14	13%	27	29%
Cynnwys Rhan 3	7	7%	6	7%
Cynnwys Rhan 4	7	7%	1	1%
Cynnwys Rhan 3 a 4	2	2%	2	2%


Tabl 3.2 Apeliadau a dderbyniwyd ac a gyflawnwyd yn ôl blwyddyn




Tabl 3.3 Apeliadau a dderbyniwyd yn ôl chwarter 2009-2010




Tabl 3.4 Apeliadau yn ôl awdurdod lleol




Tabl 3.5 Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a phoblogaeth ysgol




Tabl 3.6 Apeliadau yn ôl math o apêl




Tabl 3.7 Apeliadau yn ôl oed ysgol a math o apêl 2009-2010




Tabl 3.8 Apeliadau yn ôl oed ysgol ac awdurdod lleol 2009-2010




Tabl 3.9 Apeliadau yn ôl canlyniad




Tabl 3.10 Apeliadau yn ôl canlyniad a math – 2009-2010




Tabl 3.11 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2009-2010



Tabl 3.12 apelïadau yn ôl angen addysgol arbennig




Tabl 3.13 Apeliadau yn ôl rhyw 2009-2010




■ Bechgyn ■ Genethod

Tabl 3.14 Apeliadau yn ôl cenedligrwydd 2009-2010




■ Gwyn ■ Heb gwblhau ■ Arall ■ Bangladesaidd ■ Pacistanaid


Tabl 3.15 Hawliau a gofrestrwyd ac a gyflawnwyd yn ôl blwyddyn



Tabl 3.16 Hawliau yn ôl canlyniad



Tabl 3.17 Ceisiadau Ilywyddol



4. Adolygiadau ac apeliadau sy'n mynd ymlaen

Gellir gwneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys gan rieni ac ALL am resymau cyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed 4 cais. O blith y rhai hynny, cafodd 2 eu gwrthod a chanfuwyd bod 2 yn cynnwys gwallau amlwg a gafodd eu diwygio drwy dystysgrif.


Gellir gwneud apeliadau i Haen Uwch Gwasanaeth y Tribiwnlys gan rieni ac ALL yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys lle credir bod y penderfyniad yn anghywir ar bwynt o gyfraith. Rhaid gofyn am ganiatâd i apelio i'r Tribiwnlys Uwch yn gyntaf oddi wrth TAAAC. Dros gyfnod yr adroddiad hwn gwnaed 4 cais am ganiatâd i apelio i TAAAC, a chafodd pob un ei wrthod. Cafodd 2 gais eu hadnewyddu i'r Tribiwnlys Uwch, ac o blith y rhai hynny cafodd 1 apêl ei thynnu'n ôl a chafodd 1 apêl ei chefnogi a'i hanfon yn ôl am ail wrandawriad.

5. Ein perfformiad

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Tribiwnlys. Rydym wedi gweld 15% o gynnydd yn nifer yr apeliadau AAA a gofrestrwyd. Yr ydym er hynny wedi cynyddu ein hallbwn gan gyflawni 5% yn fwy o apeliadau yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Rydym yn mesur ein perfformiad drwy dargedau perfformiad allweddol a gwiriadau ar fodlondeb y cwsmer. Mae hyn yn ein helpu i fonitro cyflymder ac ansawdd ein gwasanaeth.

Targedau perfformiad allweddol



Gwiriadau ar fodlondeb y cwsmer

Derbyniwyd 27 o ffurflenni wedi eu cwblhau dros gyfnod yr adroddiad. O blith y rhain:

- Dywedodd dros 90% o gwsmeriaid ein bod yn barod i gynorthwyo wrth drin ymholiadau ar y ffôn, ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd.
- Cytunodd dros 95% o gwsmeriaid ein bod wedi prosesu eu hachos yn effeithlon

Cwynion

Derbyniwyd 2 gwyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

6. Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid a defnyddwyr

Cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr

Mae cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr yn gyfle pwysig i'r Tribiwnlys gynnal cyfarfodydd fforwm agored gyda'i ddefnyddwyr a'i ran-ddeiliaid. Cynhaliwyd cyfarfodydd mewn lleoliadau rhanbarthol ar draws Cymru ym mis Hydref 2009 a Mawrth 2010. Gellir llwytho i lawr wybodaeth am gyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr, gan gynnwys hen bapurau a nodiadau, o wefan y Tribiwnlys.

7. Yr Iaith Gymraeg

Mae gan y Tribiwnlys bolisi iaith Gymraeg a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth cyfatebol o'r un safon uchel ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n apelio neu sy'n gwneud hawl i'r Tribiwnlys. Mae ein holl gyhoeddiadau a'n ffurflenni yn ddwyieithog a gellir cynnal gwrandawiadau ar gyfer apeliadau a hawliau yn y ddwy iaith.

Lle nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf byddwn yn trefnu i gyfieithydd fynychu'r gwrandawriad ac rydym yn gwneud ein gorau i fodloni pob angen ieithyddol.

Ni wnaed unrhyw apeliadau na hawliau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2009-10.

8. Gwariant

Gwariant: 1 Ebrill 2009 – 31 Mawrth 2010

Gwariant	2009 - 2010
Ffioedd a Threuliau Llywydd ac Aelodau'r Tribiwnlys	£130,000
Gwrandawiadau, Dileu Cyfarfodydd a Grwpiau Defnyddwyr	£45,000
Treuliau Swyddfa	£20,000
Treuliau Apeliadau Eraill (Hawliau Tystion, Cyfieithu)	£10,000
Hyfforddiant Tribiwnlys	£5,000
Ffioedd Cyfreithiol	£1,000
Cyfanswm	£211,000

Mae costau ychwanegol fel cyflog staff ar gyfer yr ysgrifenyddiaeth a llety a rennir gan y Tribiwnlys yn cael eu talu'n ganolog. Y costau hyn yw:

Cyflogau	£230,000
Llety	£20,000

*wedi eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf

9. Cysylltu â'r Tribiwnlys

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Uned 32 Parc Menter Dole Road
Llandrindod
Powys
LD1 6DF

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 01597 829800

Ffacs y Tribiwnlys: 01597 829801

E-bost y Tribiwnlys: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Gwefan y Tribiwnlys: www.taaac.gov.uk

Huw Lewis AC/AM
Y Dirprwy Weinidog dros Blant
Deputy Minister for Children



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf:
Ein cyf: DC/HL/0071/10

Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol

4 Awst 2010

Annwyl Gydweithiwr,

Cyfarfûm â Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) ac roeddwn yn bryderus iawn o ddysgu bod nifer fechan o enghreifftiau lle byddai'n ymddangos nad oedd rhieni wedi eu cynghori ynglŷn â'u hawliau i apelio yn erbyn penderfyniad Awdurdod Lleol (ALI).

Er fy mod yn derbyn y gallai'r rhain fod yn ddigwyddiadau ynysig, rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod rhieni ym mhob achos yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau statudol i apelio. Efallai y bydd yn ddefnyddiol eich atgoffa am y ffurflen penderfyniadau y gellir gwneud apêl arni. Mae hawliau i apelio at TAAAC yn codi yn yr enghreifftiau canlynol:

Lle na fydd yr ALI yn cyflawni asesiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig y plentyn;
Mae'r ALI yn gwrthod cyhoeddi datganiad o anghenion addysgol arbennig plentyn.

Lle cafodd datganiad ei gyhoeddi neu ei newid, yna gellir gwneud apêl yn erbyn y canlynol:

1. Yr anghenion a nodwyd o fewn datganiad a'r cymorth arbennig y bwriadwyd iddo ateb yr anghenion hynny (rhannau 2 a 3 y datganiad);
2. Enw'r ysgol y rhoddir y plentyn ynddi (rhan 4 y datganiad);
3. Yr ALI ddim yn enwi ysgol;
4. ALI yn gwrthod newid yr ysgol a enwyd o fewn datganiad, lle mae'r datganiad hwnnw o leiaf yn flwydd oed;
5. ALI yn gwrthod ailasesu anghenion lle nad oes asesiad newydd wedi digwydd o fewn y chwe mis blaenorol;
6. Penderfyniad ALI i ddileu datganiad; a
7. Penderfyniad ALI i beidio â diwygio datganiad yn dilyn ailasesiad.

Pan mae penderfyniad o'r fath wedi ei wneud, mae'n **ofynnol** i ALI gynghori'r rhiant ynghylch:

- eu hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;
- yr amser sydd ar gael ar gyfer gwneud apêl;
- argaeledd gwasanaethau partneriaethau rhieni a gwasanaethau datrys anghydfod a'r ffaith nad yw gwneud trefniadau gyda'r gwasanaethau datrys anghydfod yn effeithio ar hawl rhiant i apelio.

Rhaid rhoi'r cyngor hwn hefyd os penderfyna Awdurdod Lleol gyhoeddi datganiad arfaethedig neu gyhoeddi datganiad diwygiedig.

Rwy'n ymwybodol o arfer da mewn rhai Awdurdodau lle mae penderfyniadau'r ALI yn cael eu hegluro i'r rhieni wyneb yn wyneb fel arfer. Ond mae'n ofynnol i ALI yn yr amgylchiadau hynny gyflwyno hawliau apelio rhieni yn ysgrifenedig.

Gobeithiaf yn fawr fod y digwyddiadau y tynnwyd fy sylw atynt yn enghreifftiau prin. Byddwn yn ddiolchgar, er hynny, pe baech yn anfon yr wybodaeth yn y llythyr hwn at eich swyddogion. Byddaf yn gofyn i Lywydd TAAAC am ddiweddariad y tro nesaf y byddwn yn cyfarfod.



Huw Lewis AM/AC
Y Dirprwy Weinidog dros Blant